

## CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod Arbennig o Bell a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2022 am 6.05pm.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Jayne Norman (Maer); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Millie Collins, Geoff Cox, Robert Crowley, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams a Mark Wilson.

### 770 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn:

“A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

### 771 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd Andrew R.T. Davies.

### 772 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 773 GWEITHREDU CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL DE DDWYRAIN CYMRU –

Rhoddodd yr Arweinydd drosolwg o gynnwys yr adroddiad a chyfeiriodd at y model llywodraethu a chyflawni interim i weithredu'r gofynion statudol ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CBCDDdC) drwy ddefnyddio dull deul o weithredu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) ochr yn ochr â cham sylfaenol cychwynol y CBC a phennu ei gyllideb gyntaf ar 31 Ionawr, 2022.

Rhoddodd hefyd wybod i Aelodau ar sut y bwriadwyd gweithredu model codi a symud integredig a oedd yn ceisio dwyn ynghyd y P-RC a CBCDDdC yn un model cydlynol o lywodraethu economaidd rhanbarthol.

Roedd sefydlu'r CBC yn ddyletswydd statudol a chyfreithiol i bob un o'r 10 Awdurdod Lleol yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan gynnwys y cyfrifoldeb i bennu'r gyllideb ar gyfer y CBCDDdC erbyn 31 Ionawr, 2022 ar yr hwyraf. Byddai Arweinwyr y 10 Awdurdod a chynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyfarfod yn fuan i gytuno ar y gyllideb erbyn y dyddiad hwnnw. Roedd angen cytundeb gan bob parti ar y pwnc.

Roedd wedi ystyried ei bod yn bwysig ac yn angenrheidiol dod â'r mater gerbron y Cyngor fel bod pob Aelod yn deall yr egwyddorion y byddai'r CBCDDdC yn gweithredu oddi tanynt a'r cyfrifoldebau ariannol cysylltiedig. Y bwriad oedd sefydlu'r CBCDDdC dros dro gydag isafswm cyllideb hyd nes y gallai ddod yn gwbl weithredol.

Gan gyfeirio at argymhellion yr adroddiad ac yn enwedig at Argymhelliad (7), roedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor er mwyn cytuno ar gyfraniad y Cyngor i gyllideb y CBCDDdC yn unol â pharagraff 4.9 o'r adroddiad ac a ariannwyd fel y nodir ym mharagraff 4.10 o'r adroddiad.

Atgoffodd yr Aelodau, fel Arweinydd y Cyngor, fel y gwnaeth Arweinwyr eraill yr Awdurdodau Lleol, fod ganddo ddyletswydd i ystyried a phennu cyllideb gyntaf y CBCDDdC erbyn y dyddiad uchod er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

Roedd hefyd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ymhellach (Argymhelliad (9)) i roi awdurdod dirprwyedig i Swyddog Monitro'r Cyngor / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol yn unol â Chymal 2.1.2 Cytundeb Cydweithio P-RC De-Ddwyrain Cymru ar ôl sefydlu'r CBCDDdC.

Wrth ymateb i sylwadau'r Arweinydd, roedd gan y Cynghorydd Carrol rywfaint o gydymdeimlad ag ef a'i weinyddiaeth. Gan gydnabod deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r gofynion cyfreithiol i weithredu CBCau, nid oedd yn gweld mai'r rhain oedd y ffordd orau o benderfynu a darparu gwasanaethau ar lefel gymunedol lleol. Nid oedd ef na'i Grŵp yn cefnogi canoli grym oddi wrth gymunedau lleol. Roedd rhain yn deimladau yr oedd yn deall oedd wedi'u mynegi gan Aelodau etholedig Cynghorau eraill ledled Cymru. Gan dderbyn y gofynion cyfreithiol i sefydlu cyrff o'r fath, roedd o'r farn bod y cysyniad yn gam yn ôl ac yn unol â hynny roedd yn ei wrthwynebu a dywedodd y byddai ei Grŵp yn ymatal rhag pleidleisio ar y mater.

Diolchodd y Cynghorydd Gray i'r Arweinydd am ddod â'r mater gerbron y Cyngor gan ei fod yn ymwybodol nad oedd y Cynghorau eraill yn y rhanbarth wedi trafod y mater eto. Cydnabu fod rhai cwestiynau nad oeddent wedi'u hateb mewn perthynas â gweithrediad y CBCDDdC. Roedd materion difrifol yn parhau o ran sicrhau y craffwyd ar benderfyniadau'r CBCDDdC a bod gan gymunedau lleol ymwybyddiaeth o'r hyn yr oedd cyrff o'r fath yn ei wneud. Yr isafswm y gellid ei wneud o safbwynt y Cyngor hwn a'r Cabinet oedd sicrhau bod y cofnodion ar gyfer y CBCDDdC yn cael

eu hadrodd i'r Cabinet i'w hystyried fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos cofnodion y P-RC, ac os oes angen, adroddiadau pellach i'r Cyngor. Nododd fod ei Grŵp yn cefnogi'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad dan sylw.

Ategodd y Cynghorydd Robertson sylwadau ei Arweinydd Grŵp a deallodd safbwynt y Cyngor, fodd bynnag, roedd yn ystyried y cynigion fel erydiad enfawr o ddemocratiaeth leol a chanoli pŵer a'r broses o wneud penderfyniadau. Gan gyfeirio at yr adroddiad arall i'w ystyried yn ymwneud â swyddi'r Cyfarwyddwr ychwanegol a oedd i'w trafod yn ddiweddarach, roedd o'r farn bod yr adroddiad hwn yn wrthddywediad yng nghyd-destun gweithredu'r CBC, a fyddai'n arwain at golli cyfrifoldebau ar lefel leol.

Roedd y Cynghorydd Dr Johnson yn gwerthfawrogi bod y mater yn cael ei ddwyn gerbron y Cyngor i'w ystyried, gan gydnabod bod yr adroddiad yn cwmpasu'r hyn a oedd yn fater technegol a gweinyddol. Cyfeiriodd at yr etholiadau llywodraeth leol sydd ar ddod ac at y ffaith y byddai nifer o faterion yn ymwneud â'r CBCDDdC yn cael eu gohirio ac felly'n cael eu hystyried a'u penderfynu gan Weinyddiaeth newydd y Cyngor.

Dywedodd y byddai ei Grŵp yn cefnogi'r cynigion, fodd bynnag, roedd ganddo nifer o bryderon a oedd yn parhau o ran gweithredu'r CBCDDdC ac roedd yn cofio codi pryderon rai blynyddoedd yn ôl ynglŷn â sefydlu'r P-RC, o ran bod y Cyngor yn colli allan ar gyllid gan nad oedd naill ai'n brifddinas na'n gymuned yn y cymoedd. Parhaodd y pryder hwn mewn perthynas â datblygu polisi, yn enwedig o ran materion tai a datblygu economaidd, gyda'r Sir ddim yn elwa.

Gan gyfeirio at y pryderon cynharach a fynegwyd, nad oedd yn eu rhannu, atgoffodd y Cynghorydd Dr Johnson yr Aelodau fod gan fenter Llywodraeth Cymru fandad democrataidd yn seiliedig ar ganlyniad etholiad y Senedd a gynhaliwyd yn 2021. Wedi dweud hynny, roedd ganddo bryderon ynglŷn â gweithredu trefniadau craffu CBC y De-ddwyrain yn y dyfodol ac roedd yn siŵr y byddai hyn yn cael ei godi gan yr Arweinydd ac Arweinydd y Weinyddiaeth newydd, gan nad oedd yn ystyried bod y trefniadau craffu presennol ar waith ar gyfer y P-RC yn arbennig o ddemocrataidd ac edrychodd ymlaen at y dyfodol lle gallai'r gwrthbleidiau gymryd rhan yn hytrach na chael eu cloi allan fel yr oedden nhw ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at Brosiect Cyfnewidfa Drafnidiaeth Doc y Barri fel achos o'r fath lle'r oedd yn cwestiynu a fyddai'r prosiect o fudd i'r Barri. Cyfeiriodd hefyd at y papurau newydd yng Nghymru yn rhoi sylw i bryniant Gorsaf Bŵer Aberddawan. Gan gydnabod y bu trafodaethau diweddar ar y prosiect, teimlai na ddylai'r materion hyn ymddangos fel eu bod wedi'u celu, gyda gwybodaeth ddim yn agored nac ar gael i drigolion y Fro. Er ei fod yn gefnogol i'r cynigion roedd gwersi i'w dysgu o hyd.

Ategodd y Cynghorydd John sylwadau blaenorol a wnaed o ran diolch i'r Arweinydd am ddod â'r mater i'r Cyngor i'w ystyried, yn wahanol i rai Cynghorau a oedd ond yn trafod y mater ar lefel Cabinet. Gan gyfeirio at ei sylwadau a wnaed beth amser yn ôl mewn cyfarfod craffu, nid oedd yn gyffredinol o blaid mentrau o'r fath gan ei fod yn gweld y rhain fel drws cefn i ad-drefnu Cynghorau ac roedd yn cytuno â sylwadau'r Cynghorydd Dr Johnson mewn perthynas â threfniadau craffu. Fodd bynnag, teimlai fod y CBCDDdC yn fenter y dylid ei chefnogi ac awgrymodd y byddai ei Grŵp yn cefnogi cynigion yr adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Wilson, wrth adleisio sylwadau blaenorol i gefnogi'r cynigion gan gynnwys pwysigrwydd trefniadau craffu priodol ac atebolrwydd lleol, o'r farn mai'r dull presennol a amlinellwyd gan yr Arweinydd oedd y ffordd synhwyrol o ddatblygu'r mater a fyddai'n caniatáu i unrhyw Weinyddiaeth newydd ddatblygu'r materion oedd yn weddill er mwyn caniatáu i'r CBCDDdC gael ei weithredu'n llawn.

Wrth grynhoi nododd yr Arweinydd, o ran erydu pŵer, ei fod yn fater yr oedd pawb yn pryderu amdano, ond roedd yn fater, yn y cyd-destun presennol, o weithio ar y cyd ag eraill. Nid oedd o reidrwydd yn derbyn y cysyniad na'r rhagosodiad am y CBC yr oedd y Cynghorydd Dr Johnson wedi'i gyflwyno. Gan gyfeirio at dai fel enghraifft a drafftio cysylltiedig y Cynllun Datblygu Strategol, bu'n rhaid gohirio hyn oherwydd mater gweithredu CBCau, ond roedd yn fater a fu ar flaen meddyliau Cabinet Rhanbarthol y Fargen Ddinesig yn arbennig, sef yr angen i ddarparu tai uwchben coridor yr M4. Fodd bynnag, nid oedd yn credu y byddai hyn yn rhan o'r gwaith wrth symud ymlaen. Derbyniodd fod angen i drefniadau craffu fod yn fwy cadarn, ond nododd fod hynny'n ymwneud mwy ag aelodau cynghorau eraill yn methu â mynychu cyfarfodydd craffu'r P-RC, na allent fynd rhagddynt wedyn. Roedd wedi mynychu cyfarfodydd Cabinet P-RC cysylltiedig yr oedd yn ofynnol iddo eu mynychu fel y gwnaeth ei ragflaenydd.

Wrth gloi, ailadroddodd yr Arweinydd ei fod wedi dod â'r mater gerbron y Cyngor er mwyn bod yn agored ac yn atebol, o ystyried y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn y P-RC i weithredu'r CBCDDdC. Roedd am sicrhau bod y Cyngor yn penderfynu rhoi'r awdurdod angenrheidiol iddo ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny ar sail y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad a diolchodd i'r Aelodau hynny a nododd y byddent yn cefnogi'r cynigion.

Cynigodd yr Arweinydd (a eiliwyd gan y Dirprwy Arweinydd) y dylid cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

Digwyddodd y Bleidlais a Gofnodwyd isod wrth gymeradwyo argymhellion yr adroddiad.

<b>Aelodau</b>	<b>Canys</b>	<b>Yn Erbyn</b>	<b>Ymatal</b>
Julie Aviet	√		
Vincent Bailey			√
Rhiannon Birch	√		
Jonathan Bird	√		
Bronwen Brooks	√		
Lis Burnett	√		

George Carroll			√
Christine Cave			√
Janice Charles			√
Millie Collins	√		
Geoff Cox	√		
Robert Crowley			√
Pamela Drake	√		
Vince Driscoll			√
Stewart Edwards			√
Ben Gray	√		
Owen Griffiths	√		
Stephen Griffiths			√
Sally Hanks	√		
Nic Hodges	√		
Hunter Jarvie	√		
Gwyn John	√		
Ian Johnson	√		
Gordon Kemp			√
Peter King	√		
Kevin Mahoney			√
Kathryn McCaffer	√		
Anne Moore	√		

Neil Moore	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Rachel Nugent-Finn			√
Andrew Parker	√		
Bob Penrose			√
Sandra Perkes	√		
Andrew Robertson		√	
Leighton Rowlands			√
Ruba Sivagnanam	√		
John Thomas	√		
Neil Thomas	√		
Steffan Wiliam	√		
Margaret Wilkinson	√		
Edward Williams	√		
Mark Wilson	√		
<b>CYFANSWM</b>	<b>30</b>	<b>1</b>	<b>13</b>

Derbyniwyd y Cynnig.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y model llywodraethu a chyflawni interim ar gyfer gweithredu Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru a'r trefniadau "trac deul" a gynigir ar draws gweithrediad Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ochr yn ochr â deddfu cychwynol Cydbwyllgor Corfforaethol "lleiafswm" – a hyd nes y gwneir hynny, nodi'r amser y gallai'r dull "codi a shifft" arfaethedig ddigwydd.

- (2) Y Dylid nodi'r gofyniad i'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol osod a chymeradwyo cyllideb ar neu cyn 31 Ionawr, 2022 a'r camau a nodir yn yr adroddiad i alluogi hyn.
- (3) BOD y risgiau a'r materion a nodir yn yr adroddiad yr oedd angen eu monitro, eu lliniaru a'u rheoli'n barhaus yn cael eu nodi.
- (4) Y Dylid nodi a chefnogi'r cais a wnaed gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd o Lywodraeth Cymru i ddiwygio rheoliadau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i newid y dyddiad y cychwynnodd dyletswyddau uniongyrchol o dan y Rheoliadau rhwng 28 Chwefror, 2022 a 30 Mehefin, 2022.
- (5) Y Dylid nodi bod y Rheolau Sefydlog drafft ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a oedd yn cael eu hysgrifennu i'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar 31 Ionawr, 2022.
- (6) Y Dylid nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i Chynghorau cyfansoddol i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a chynghorwyr fel y bo'n briodol, i helpu i lywio'r gwaith o ddatrys y materion sy'n weddill lle bynnag y bo modd.
- (7) Y Dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 dros dro, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr-gyfarwyddwr a'r Arweinydd, i gytuno ar gyfraniad y Cyngor i gyllideb Cyd-Bwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru yn unol â pharagraff 4.9 o'r adroddiad erbyn 31 Ionawr, 2022, ac wedi ei ariannu fel y manylir ym mharagraff 4.10 yr adroddiad.
- (8) Y Dylid nodi, yn amodol ar Benderfyniad (7) uchod, fod dyletswydd ar yr Arweinydd, ynghyd ag Arweinwyr y Cyngorau cyfansoddol eraill, i ystyried a gosod cyllideb gyntaf Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru erbyn 31 Ionawr, 2022 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn ôl yr angen.
- (9) Y Dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol yn unol â Chymal 2.1.2 Cytundeb Cydweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dilyn sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforaethol.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1-6) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (7) Rhoi awdurdod dirprwyedig i alluogi penderfynu a chytuno ar gyfraniad y Cyngor i gyllideb Cyd-Bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru.
- (8) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod a chaniatáu ar gyfer trosglwyddo o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol maes o law.
- (9) Caniatáu ar gyfer trosglwyddo o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol maes o law.